O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2023 Rhif 1029 (Cy. 169)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A465 Castell-nedd i'r Fenni (Cyffordd Saleyard a Chyffordd Glanbaiden) (Terfyn Cyflymder 30 mya) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *18 Medi 2023* |
| *Yn dod i rym* | *20 Medi 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A465, a thrwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 84(1)(a), 84(2) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gwent ac wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol ag adran 84(2) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a rheoliadau 5(1) a 6(1) o Reoliadau Gorchmynion Traffig yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1990(**2**).

### Enwi a Chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 Castell-nedd i'r Fenni (Cyffordd Saleyard a Chyffordd Glanbaiden) (Terfyn Cyflymder 30 mya) 2023 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 20 Medi 2023.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw—

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p. 40). Amnewidiwyd adran 84(2) gan baragraff 61 o Atodlen 8 i Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22). Yn rhinwedd O.S. 1999/672 ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) O.S. 1990/1656.

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**);

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel; ac

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

**Cyfyngiad**

**3.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 18 Medi 2023

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29 o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

**ATODLEN 1**
**CEFNFFORDD YR A465**
**(CYFFORDD GLANBAIDEN)**

Cerbytffordd gylchredol gyfan cefnffordd yr A465 Castell-nedd i'r Fenni wrth Gyffordd Glanbaiden yn Sir Fynwy, gan gynnwys ei chyffordd sy'n arwain at Courtyard Cottage am bellter o 30 o fetrau a'i chyffordd â'r B4246 am bellter o 19 o fetrau.

**ATODLEN 2**
**CEFNFFORDD YR A465**
**(CYFFORDD SALEYARD)**

Y darn o briffordd yng nghyffiniau Cyffordd Saleyard yn Sir Fynwy o'r enw Y Brif Ffordd sy'n ymestyn o bwynt 20 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â ffordd ymadael tua'r dwyrain yr A465 hyd at ei chyffordd â Station Road a ffordd ymuno tua'r dwyrain yr A465.

Y darn o briffordd yng nghyffiniau Cyffordd Saleyard yn Sir Fynwy o'r enw Station Road sy'n ymestyn o'i chyffordd â'r Brif Ffordd hyd at ganol ei chyffordd â'r allanfa o gilfan safle bws Station Road.